

2021 Rhif (Cy.)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Cyfarwyddydau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Rhif 2) (Diwygio) 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 23(1) a 24(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Rhif 2) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 28 Gorffennaf 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Diwygio Cyfarwyddydau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Rhif 2) 2018

2.—(1) Mae Cyfarwyddydau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Rhif 2) 2018 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2 (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “data gwasanaethau iechyd” (“*health service data*”) yw data a brosesir ar gyfer darparu neu hybu gwasanaethau o dan y Ddeddf neu mewn cysylltiad â darparu neu hybu gwasanaethau o'r fath;”

ystyr “plattfformau, systemau a gwasanaethau digidol” (“*digital platforms, systems and services*”) yw caledwedd, meddalwedd a threfniadau eraill ar gyfer casglu, storio, prosesu, dadansoddi, defnyddio a lledaenu data gwasanaethau iechyd yn ddigidol.”

(3) Ym mharagraff 3 (swyddogaethau), ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder is-baragraff newydd—

“(2) Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo AaGIC i sefydlu a gweithredu Swyddfa ar gyfer y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd i fod â Phrif

Swyddog Digidol a staff, a fydd yn cefnogi trawsnewid ar draws platfformau, systemau a gwasanaethau digidol.

(3) Caiff AaGIC ddarparu cyngor a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau.”



Eluned Morgan

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanethau Cymdeithasol

27/07/2021